# y Garthen

PAPUR BRO DYFFRYN TEIFI Mehefin 2020 75c


BANC BWYD LLANDYSUL FOOD BANK

## Pobl yn helpu adeg Creisis Covid-19



Mae Cristnogion ardal Llandysul wedi bod yn brysur yn ystod y creisis Covid-19 yn datblygu ar waith y banc bwyd lleol trwy gynnig bocsys o lysiau a ffrwythau ffres yn wythnosol i deuluoedd bregus yn Llandysul, Pencader a'r pentrefi o'u cwmpas.

Mae Banc Bwyd Llandysul, sy'n cael ei redeg gan Gristnogion o Capel Seion Llandysul, Eglwys St Tysul ac Eglwys Ffynnon, Llandysul, yn cydweithio yn agos gydag asiantaethau eraill e.e. y gwasanaethau cymdeithasol, Ysgol Bro Teifi ac Ysgol Cae'r Felin, y cynghorydd lleol Linda Evans, Tîm o Amgylch y Teulu a'r gwasanaethau iechyd i helpu teuluoedd ac unigolion sydd mewn angen.

Ma' nhw hefyd yn gofyn i bobl yn y cymunedau i fod yn lygaid a chlustiau i'r gwaith a chysylltu gyda Lleucu ar 07966 014348 gydag enwau pobl sydd yn dioddef ac mewn angen. Cynigir help i gael bwyd ffres yn wythnosol. Yn aml mae pobl angen sgwrs ar stepen y drws cymaint â ma' nhw angen y bwyd. Dyma un o'r adnodau y mae gwaith y banc bwyd wedi ei selio arni: "Bydd person hael yn cael ei fendithio am rannu ei fwyd gyda'r tlawd" Diarhebion 22:9.



Gweler llun o Gareth Reid, ficer, yn Y Ffawydd, Llandysul. Gydag ef mae 2 o'r trigolion, a Lyn sy'n rhoddi wyau am ddim yn ystod y creisis, i'w dosbarthu.



Dyma Meirion a Tim o Eglwys Ffynnon, fore Sadwrn diwethaf yn y glaw cyn i Lleucu a Gareth Reid ymuno a nhw i fynd o amgylch yn dosbarthu llysiau.



Gail a Sasha yw'r ddwy gwirfoddolwraig newydd yn festri Capel Seion. Mam a merch ydyn nhw o Drefach Felindre sydd ar *furlough*.

Cawson nhw eu hyfforddi fel gwirfoddolwyr banc bwyd ar ddechrau yr argyfwng, gan i fwyafrif o'r gwirfoddolwyr fethu helpu oherwydd oedran neu iechyd.


**Rhagor o hanes ar tudalen 4**

# Pwy yw Pwy

**Cadeirydd:**
Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor Ll.B., B.D.

**BWRDD RHEOLI**
Yvonne Griffiths, Beth Davies,
Aled Eynon, Haulwen Lewis,
Martin Griffiths, Hefina Davies,
Rowena Davies - Franklin
Miriam James, Wenna Bevan-Jones

**PRAWF DARLLENWYR**
Martin Griffiths
Aled Eynon

**BWRDD GOLYGYDDOL**
Yvonne Griffiths,
Guto Prys ap Gwynfor
Peter a Bethan Evans

**CYSWLLT LLEOL**
**Llandysul/Capel Dewi –**
Beth Davies, 01559 362850
Cd1340@cd1340.force9.co.uk
**Pontsian** – Hefina Davies, Cwrt, Pontsian, 01545 590423
**Pencader** –
Ann Phillips, Rhoslwyn
01559 384558
annwyn15@hotmail.com
Mair Jones, Bro'r Hen Wr,
mairggg@icloud.com
**Drefach Felindre –**
Aled Eynon, 07811680497
aoeynon@yahoo.co.uk
Olive Campden, Coed y Pry,
01559 370302
**Prengwyn, Maesymeillion, Tregroes**
Wenna Bevan Jones,
Pantycreuddyn, Prengwyn,
01559 363328
Betty Evans, Caerlyn, Prengwyn,
01559 363610
**Castell Newydd Emlyn** –
Janet Kench, Brynmeillion,
Llandyfriog, 01239 711112
Elgan Jones, Berwyn, 01239 710840
**Rhos/Bryn Iwan –** Miriam James,
Dôl-werdd, Rhos, Llangeler,
01559 370286
**Gwyddgrug** – Yvonne Griffiths,
01559 384468
yvonneg43@gmail.com
**Capel Iwan –**
Rita Davies, Arwelfa 01559 370539
Helen Williams, Black Oak,
01559 370392
**Llanfihangel – ar - Arth –**
Meinir Ffransis, Dolwerdd,
Llanfihangel - ar - arth 01559 384378
Mair Wilson, 01559 384283
mair_wilson@hotmail.co.uk

**TREFNYDD CLWB 100:**
**Haulwen Lewis 01559384279**
**haulwen279@yahoo.co.uk**

**CYSODYDD:**
**Rowena Davies - Franklin**
**01559 362104**

**PRAWF DARLLENYDD**
**MIS MEHEFIN -**
**Martin Griffiths**

**GOLYGYDD**
**MIS MEHEFIN -**
**Peter a Bethan Evans**

**Gwerthir Y GARTHEN**
yn y canolfannau canlynol –
**Llandysul –** Siop CK
Siop Ffab
**Pontsian —** Siop Premier
**Pencader —** Siop Premier
Siop Flodau Tŷ Gwyrdd
**Alltwalis –** Siop Windy Corner
**Drefach Felindre –** Siop Spar
Swyddfa'r Post
**Saron –** Garej Bargod
**Castell Newydd Emlyn –**
Gwynnant
**Caerfyrddin –** Siop y Pentan,
**Llanllwni –** Swyddfa'r Post
**Aberteifi –** Siop Awen Teifi
**Aberaeron** – Llanon House
**Penrhiwllan** - Siop Popeth
Mae **Siop Deithiol Talgarreg** yn gwerthu'r **Garthen** hefyd, **neu drwy law y cyswllt lleol.**

<u>**Tanysgrifiadau blynyddol tu allan i'r dalgylch**</u> **—**
Y Garthen drwy'r post
Yvonne Griffiths,
Y Felin,
Gwyddgrug,
Pencader,
SA39 9AX .Ffôn: 01559 384468
**e-bost: yvonneg43@gmail.com**
**£14.50 am 10 rhifyn**

**Dyddiad derbyn deunydd**
**Rhifyn Gorffennaf/Awst:**
**Gorffennaf 1**
Os yn bosib, anfonwch eich cyfraniadau ar e-bost mewn **FFURF WORD YN UNIG**
os gwelwch yn dda at:
**ygarthen@yahoo.com**

**Ni allwn dderbyn cyfraniadau fel rhan o ebost na PDF.**
Argraffwyr: E.L. Jones a'i Fab,
Aberteifi
01239 612251
e-bost: eljonesaifab@btinternet.com

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

AWEN TEIFI
23 Stryd fawr, Aberteifi
Llyfrau Cymraeg, Cryno ddisgiau, cardiau,
teganau i blant o bob oed, crysau,
Lluniau gwreiddiol a phrintiadau o waith Aneurin Jones a Meirion Jones
01239 621370

DAI LEWIS
DAVID LEWIS FRICS
Cysyllter â'r Arbenigwyr
(sy'n Gymry Cymraeg)
os rydych am werthu neu brisio
eich fferm, tyddyn, tŷ neu fwthyn
Ffoniwch:
Llandysul 363401 C. N. Emlyn 710481

Peiriannau Gardd
Dyffryn Teifi
DREFACH FELINDRE
01559 371093 07445326870
Peiriannau Gardd Gwerthu a Gofalu
Y Gwasanaeth Gorau Bob Amser
e-bost teifivgm@totalserve.co.uk

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN I
EUROPEAN UNION OBJECTIVE I
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Nid yw Pwyllgor Y Garthen na'n noddwyr o angenrheidrwydd yn cytuno gyda phob barn yn y papur



Llongyfarchiadau mawr i Ieuan a Dilys Jones, Dol -y-Grug, Llandysul ar ddathlu 65 mlynedd o fywyd priodasol yn ddiweddar, mae'r ddau bellach yn derbyn gofal rhagorol yng Nghartref Alltymynydd.




Llongyfarchiadau mawr i Ernie a Betty Hatcher, Coedfryn, Pontsian ar ddathlu 60 mlynedd o briodas yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau i:**

- Dylan James, 1 Lon Bele, Prengwyn ar ei swydd newydd.
- William a Eleanor Mains, Llandysul ar eu priodas berl.
- Mair a Neville Wilson, Lluest, Llanfihangel-ar-Arth ar ddod yn dadcu a mamgu i Bedw Illtud, mab i Heledd a Gethin a brawd i Myfi a Deio.

**Penblwydd hapus i:**

- Caroline Davies, Y Fron, Pontsian ar ei 60 oed.
- Caryl Mayes Davies, Maesyrodyn, Rhydowen ar ei 30 oed.
- Ann Johnson, Maesyrawel, Prengwyn ar ei 50 oed.
- Marion Jones, Pantbach, Talgarreg ar ei 65 oed.
- Llyr Teifi, Parc yr Ynn, Llandysul ar ei 30 oed.

**Dymuniadau gorau i:**

- Maureen Evans, Erwlas, Llandysul.
- John Thomas, Tancoedbach, Prengwyn.

**Gwellhad buan i:**

- Eifion Griffiths, Y Felin, Gwyddgrug, Pencader sydd wedi bod yn yr ysbyty, ond adref nawr ac yn gwella.
- Wyn Phillips, Rhoslwyn, Pencader sydd wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Glangwili, ond adref erbyn hyn ac yn gwella.

**Cydymdeimlwn a:**

- Ann a Wyn PHillips, Rhoslwyn, Pencader a Ken ac Yvonne Bowen, Coedmor, Pencader ar farwolaeth eu hwncwl sef Evan Bowen, Maescader Pencader yn 96 mlwydd oed.
- Mair a Neville Wilson, a'r teulu, Lluest, Llanfihangel-ar-Arth ar farwolaeth mam Mair.
- Parchedig Guto a Sian ap Gwynfor, Yr Hafod Llandysul, a Meinir a FFred Ffransis, Dolwerdd Llanfihangel a'u teuluoedd, ar golli eu brawd Alcwyn Evans yn y Barri.

**Cydymdeimlwn â theulu a ffrindiau y diweddar:**

- Oriel Jones, Mackwith Castle, Llanfihangel-ar-Arth.
- Alun James, gynt o Penlan Isaf, Cwrtnewydd.

Er diddordeb, mae Eglwys Ffynnon newydd ddechrau 'Plantos' sy'n casglu dillad, sgidiau, gemau, teganau plant i'w dosbarthu yn y gymuned. Gweithiwn gyda mamau sengl o Y Ffawydd a Maes Cader i ddatblygu'r cynllun yma nawr. Rydyn yn casglu dillad oedolion hefyd.






Ar ôl ein diwrnod cyntaf wythnos diwethaf yn sortio trwy dillad.

**Y freuddwyd yw dod o hyd i adeilad gwag lle gall y cyhoedd ddod i weld beth sydd ar gael. Efallai bydd rhywun yn gwybod am rhywle y gallwn ei ddefnyddio.**



## Help! Coronavirus Covid-19

Ardal /Area - Llandysul, Pencader, Llanfihangel-ar-arth, Llanllwni, Capel Dewi...
Cydweithio gyda / working with -
Meddygfa Llynyfran Surgery

**A yw hi'n beryglus i chi fod mas o achos Coronavirus Covid-19? Mae 30 o wirfoddolwyr lleol yn barod i'ch helpu trwy gasglu eich siopa bwyd, presgripsiwn neu unrhyw beth brys arall yn lleol a dod â fe i'ch cartref.**

***Is it dangerous for you to be out & about due to Coronavirus Covid-19? There are 30 local volunteers ready to help you collect your shopping, prescription or anything else you need in an emergency locally, and bring it to your home.***

**Ffrind Ffôn / Phone a Friend**

Hoffech chi i wirfoddolwr lleol eich ffonio yn rheolaidd am sgwrs? Ffoniwch ni i drefnu.

*Would you be interested in having a local volunteer phone you on a regular basis for a chat? Please contact to arrange.*

Plîs rhannwch gydag eraill
*Please share with others:*

01559 740146 - Lleucu a Matt
07966 235450 - Matt, Calon Tysul
07966 014348 - Lleucu, BancBwyd
01559 395673 - Llinos, Cered
07792 199161 - Cyngh/*Cllr.* Linda Evans, Ward Llanfihangel-ar-arth
01570 471444 - CFFI Cymru, *YFC Wales*

**Banc Bwyd Llandysul**
***Food Bank***

Os ydych chi neu rhywun chi'n adnabod yn cael anhawster rhoi bwyd ar y bwrdd plîs ffoniwch ni am sgwrs gyfrinachol -

*If you or anyone you know are having problems putting food on the table, please ring for a private chat -*

Lleucu - 07966 014348
Abby a Gareth - 01559 363874
facebook.com/BancBwydLlandysul/

## Llwyddiant
## Magw Fflur Thomas



**Daeth Magw FFlur yn 2il yn y llefaru i flwyddyn 4-6 yn Eisteddfod T. Mae Magw yn 9 oed ac yn mynychu Ysgol Bro Teifi ac yn byw yn Llandysul. Daeth Magw hefyd yn gyntaf yng nghystadleuaeth llefaru oed 8-10 yn Eisteddfod digidol Capel y Groes fis Ebrill.**

**Da iawn ti!**

## Diwrnod Diogelwch Bwyd y Byd 7 Mehefin 2020

Bydd tudalen ar y we yn cael ei lansio ar 7 Mehefin (gan ei bod hi'n Ddiwrnod Diogelwch Bwyd y Byd) yn rhoi cygor ar hyn, ond mae'r cygor yr un mor berthnasol drwy'r flwyddyn. Isod fe welwch enghreifftiau o'r prif ymholiadau a ofynnir ynghŷd ag hatebion.

### Ydy wyau sy'n arnofio yn ddrwg?

Peidiwch â chynnal yr arbrawf arnofio wy i bennu a yw'n ddiogel. Mae wyau yn ddiogel i'w bwyta am ddiwrnod neu ddau ar ôl y dyddiad 'defnyddio erbyn', cyn belled â'u bod yn cael eu coginio'n drylwyr.

### Ydy bwyd yn ddiogel os oes tolc yn y tun?

Os yw'r tolc yn y tun yn un ysgafn ac nid oes unrhyw arwyddion amlwg eraill bod y tun wedi'i ddifrodi (fel y can yn chwyddo neu'n gollwng), dylai fod eich bwyd yn ddiogel i'w fwyta.

### Am ba mor hir y mae'n ddiogel i fwyta reis ar ôl ei goginio?

Peidiwch â chadw'r reis yn yr oergell am fwy nag un diwrnod. Wrth i chi ailgynhesu reis, dylech chi bob amser wirio ei fod yn stemio'n boeth drwyddo draw.

### A yw yn saff i fwyta tatws sydd wedi dechrau egino?

Tynnwch unrhyw egin oddi ar datws cyn eu defnyddio a chofiwch dorri unrhyw ddarnau gwyrdd neu ddarnau sydd wedi pydru i ffwrdd.

### A yw yn iawn i fwyta bananas brown?

Fel arfer, gallwch fwyta ffrwythau neu lysiau sydd ychydig yn rhy aeddfed, fel moron crychlyd, bananas brown a mefus sydd ychydig yn feddal (ar yr amod nad ydynt wedi llwydo). Fel arall, gallwch eu defnyddio wrth goginio, wrth bobi neu wrth baratoi smwddis.

## Gemau Plant

Mae chwarae plant wedi newid a datblygu yn y dyddiau digidol hyn – mae'r rhyngrwyd yn eu galluogi i chwarae gemau gyda'u ffrindiau heb adael y tŷ, neu hyd yn oed godi o'r soffa. Ond mae 'na le o hyd i'r gemau traddodiadol, p'un ai yn yr ardd, yn y parc, neu ar iard yr ysgol – d'oes dim yn well na chlywed chwerthin hapus plant yn cael hwyl yng nghwmni ei gilydd yn yr awyr iach. Dyma flas ar rai o'r gemau traddodiadol poblogaidd sydd wedi'u cofnodi yn y Geiriadur.

Un o'r hen ffefrynnau yw **chwarae cwato** neu guddio. Beth yw hwnnw, medd rhai ohonoch?

Efallai eich bod yn ei adnabod yn well wrth un o'r enwau canlynol: **micymgudd**, **chwarae whic whiw**, **cwat a chwiw**, **cŵn cadno**, **chwiw mig**, **sbei**, **chwarae mig**, **licaloi**, neu, yn Saesneg, 'hide-and-seek'.

A fu rhai ohonoch erioed yn **chwarae London**? Neu efallai mai **cicston**, **chwarae ecsi**, **poitsh** neu **sgotsh** oedd eich enw am 'hopscotch'.

Mae cofnod yn y Geiriadur am 'chware cat', sef gêm o daro neu fatio darn o bren (y 'gath') i bellter am bwyntiau, yn dyddio o'r 16g. Mae'r gêm yn cael ei hadnabod hefyd fel **catio**, **chware'r gath**, **chwarae'r gath ddwy gynffon**, **chwarae pren a chati**, a **pegi**. 'Tip-cat' yw'r enw Saesneg amdani, a thybed a oes rhai ohonoch erioed wedi ei chwarae?

Beth am 'leap-frog'? Yn ôl y Geiriadur, adnabyddir y gêm fel **chwarae donci mul**, **chwarae ffwdít**, **llam llyffant**, **naid y ffroga**, **chwarae moch duon**, **neidio caseg felen**, neu **neidio mulod**. Beth oedd eich enw chi am y gêm?

Mae'n ddiddorol darganfod yn y Geiriadur bod chwarae pêl-droed yn cael ei adnabod yn y 17-18g. fel chwarae **pêl ddu.** Nid chwarae ffwtbol fel yr ydym yn ei adnabod heddiw wrth gwrs, ond rhyw ffurf hanesyddol o'r gêm boblogaidd a oedd weithiau'n eitha peryglus, yn ôl yr hanes! Cofiwch, mae 'na nifer fawr o bethau diddorol eraill i'w darganfod drwy bori yn y Geiriadur. Ewch i: http://geiriadur.ac.uk/gpc/gpc.html

Hoffem glywed eich enwau lleol chi am y gemau yr ydych yn cofio eu chwarae yn eich plentyndod, i gael ychwanegu at ein casgliad. Medrwch gysylltu â ni drwy ein gwefan, ar e-bost (gpc@geiriadur.ac.uk), neu wrth ysgrifennu at: ***Geiriadur Prifysgol Cymru, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH***


Non Edwards

BA(HONS) ECS MCFHP MAFHP

**Gweithwraig Broffesiynol mewn iechyd traed**

01239 621343

non.edwards@cms-wales.co.uk

Clinic Traed Teifi, 11 Heol y Priordy, Aberteifi

## Rosie o Gaerdydd yw Prif Ddysgwr Eisteddfod T!



Heddiw (Dydd Mawrth, Mai 26) cyhoeddwyd mai Rosina Catrin Jones o Gaerdydd yw Prif Ddysgwr Eisteddfod T, yr eisteddfod ddigidol gyntaf erioed. Mae Rosina, neu Rosie fel caiff ei galw, yn ddisgybl Blwyddyn 13 yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ac yn 18 oed.

Datgelwyd yr enillydd mewn seremoni arbennig oedd yn cael ei darlledu'n fyw ar S4C a BBC Radio Cymru, gyda'r beirniad, Nia Parry, a'r tri chystadleuydd terfynol yn ymuno ar sgriniau o'u cartrefi. Mae'r Eisteddfod T arloesol, lle mai ar-lein mae'r holl gystadlu, ar ei hail ddiwrnod o ddarlledu ar ôl diwrnod gorlawn a llwyddiannus ddoe. Mae Rosie yn ymddiddori mewn ieithoedd ac yn ymarfer ei Chymraeg gyda'i thad-cu sy'n deall ychydig bach o Gymraeg a gyda'i ffrindiau ar-lein. Mae'n gobeithio yn y pen draw bod yn athrawes ieithoedd tramor mewn ysgol Gymraeg.

Meddai: "Hoffwn i astudio Ffrangeg ac Almaeneg ym Mhrifysgol Bryste ond nawr dw i eisiau cymryd blwyddyn i ffwrdd llawn o ieithoedd, ysgrifennu, canu'r piano a gitâr, ioga a dringo os dw i'n gallu!"

Mae Rosie hefyd yn rhan o grŵp sy'n helpu'r gymuned yn ystod y cyfnod anodd hwn. Yn ei beirniadaeth, cyfaddefodd Nia Parry i gais Rosie ei gwneud yn emosiynol iawn. "Wrth wylio fideo Rosie, mi wnes i golli deigryn," meddai. "Mi wnaeth ei neges gyffwrdd fy nghalon. Roeddwn yn gallu uniaethu gyda'r hyn roedd hi'n ei ddweud am "eiriau yn ei hudo". Mae hi'n ein hannog i ddefnyddio 'geiriau i gofnodi a rhannu ein teimladau yn y cyfnod yma - i ddweud wrth pobl ein bod ni'n eu caru nhw ac i ddiolch i bobl."

"Mae gweld person ifanc fel Rosie yn dysgu'r iaith i'r fath safon a'i chlywed yn sôn am fel mae hi'n caru'r Gymraeg a'n hanes a'n diwylliant ni wedi rhoi gobaith a phleser i mi." Mae Rosie yn derbyn tlws wedi ei greu yn arbennig gan y cerflunydd Ann Catrin. Yn ail mae Luke Parfitt ac yn drydydd mae Niomie Griffiths, y ddau o Ysgol Gyfun Aberpennar.

## Nest yw Prif Ddramodydd Eisteddfod T!



Heddiw (Dydd Mercher, Mai 27) cyhoeddwyd mai Nest Jenkins yw Prif Ddramodydd Eisteddfod T, yr eisteddfod ddigidol gyntaf erioed.

Daw Nest yn wreiddiol o Ledrod ger Tregaron, ond bellach mae hi ar ei thrydedd blwyddyn yn astudio'r Gyfraith a'r Gymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Ei gobaith yn y dyfodol yw mentro i fyd darlledu, gan ddilyn cwrs ôl-radd mewn Newyddiaduraeth Darlledu y flwyddyn nesaf.

Mae Nest yn unigolyn prysur a gweithgar. Bu'n gyflwynydd radio ar Xpress Radio, gan gyd-gyflwyno dwy sioe lwyddiannus ar yr orsaf a chafodd un ei chynnwys ar Radio Cymru am gyfnod. Bu hefyd yn Llywydd y Gym Gym, sef Cymdeithas Gymraeg y Brifysgol. Gyda'i thrydedd blwyddyn wedi'i thorri'n fyr o achos y pandemig, mae Nest a'i ffrind, Jacob, wedi dechrau podlediad newydd o'r enw 'Cracio'r Corona'.

Mae'n un sy'n mwynhau eisteddfota ac wedi dod i'r brig yn genedlaethol am ganu'r delyn, piano a llefaru sawl tro. Mae'n aelod o Aelwyd y Waun Ddyfal ac wedi bod yn hyfforddi'r parti llefaru ers dwy flynedd.

Datgelwyd mai Nest oedd yr enillydd mewn seremoni arbennig a ddarlledwyd yn fyw ar S4C a BBC Radio Cymru, gyda'r beirniad, Hanna Jarman, a'r tri chystadleuydd terfynol yn ymuno ar sgriniau o'u cartrefi.


Roedd Hanna Jarman wedi mwynhau'r elfen o fenyw gryf oedd yn y gwaith buddugol.

"Dwi'n ffan mawr o gymeriadau benywaidd 'anhoffus', menywod sy'n herio sut ma' menyw fod i fihafio, siarad a theimlo. Roedd y darn yn soffistigedig iawn. Cymeriad cryf a doniol."

Mae'r Eisteddfod T arloesol, lle mai ar-lein mae'r holl gystadlu, ar ei hail ddiwrnod o ddarlledu ar ôl diwrnod gorlawn a llwyddiannus ddoe.

Mae Nest yn derbyn tlws wedi ei greu yn arbennig gan y cerflunydd Ann Catrin. Yn ail mae Delyth Evans o Silian ger Llanbedr Pont Steffan ac yn drydydd mae Sion Wyn Evans o Felinfach, ger Llanbedr Pont Steffan.

# Cyflwyno enillydd prif seremoni gyntaf Eisteddfod T!



Wyneb cyfarwydd i Eisteddfod yr Urdd yw Prif Gyfansoddwr Eisteddfod T, yr eisteddfod ddigidol gyntaf erioed. Heddiw (Dydd Llun, Mai 25), mewn seremoni ar sgrin a sain, datgelwyd mai Cai Fôn Davies o Benrhosgarnedd sy'n ennill gwobr y Prif Gyfansoddwr.

Mae Cai yn enw cyfarwydd i fudiad yr Urdd, yn cystadlu'n llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd ers yn ifanc. Mae hefyd yn un o'r chwech a fu'n cystadlu am Ysgoloriaeth yr Urdd Bryn Terfel y llynedd, wedi iddo gipio'r wobr gyntaf ym mhrif gystadleuaeth llefaru Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019.

Mae'n ennill teitl y Prif Gyfansoddwr am gyfansoddi darn o gerddoriaeth dim mwy na 2 funud o hyd ar unrhyw thema, cystadlaethau a ddenodd 21 cyfansoddiad o safon, yn ôl y beirniad, Eilir Owen Griffiths. Cyflwynodd Cai, o dan y ffug-enw ZartMo, bedwarawd llinynnol a oedd, yn ôl y beirniad yn "cynnal y gwrandawiad drwyddi draw".

Yn gyn-ddisgybl Ysgol Tryfan, Bangor, mae Cai, 20 oed, yn ei ail flwyddyn ym Mhrifysgol Bangor yn astudio Cymraeg a Hanes. Mae'n berfformiwr amryddawn a phrofiadol ac wedi ymddangos droeon ar lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt dros y blynyddoedd. Uchafbwynt personol iddo oedd pan lwyddodd i gyrraedd y brig mewn tair o brif gystadlaethau'r llwyfan dan 21 oed yr Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn 2018.



Mae Cai yn ogystal, yn aelod o gorau Johns' Boys ac Aelwyd JMJ, ac yn edrych ymlaen at ail-afael yn y perfformio pan fydd hi'n ddiogel i wneud hynny.

Yn ei feirniadaeth, meddai Eilir Owen Griffiths:

"Beth mae y cyfansoddwr hwn yn llwyddo i wneud yn gelfydd yw cyflwyno llawer o adrannau byr gwrthgyferbyniol a'u datblygu yn effeithiol o fewn 2 funud – mae o'n gyfanwaith. Mae'r cyfansoddwr yn amlwg iawn wedi arfer ysgrifennu i linynnau ac yn llwyddo i greu gweadau diddorol a rhannu y syniadau rhwng yr offerynnau yn effeithiol. Mae newydd-deb yma. Llongyfarchiadau!"

Bydd Cai yn derbyn tlws arbennig wedi ei greu gan y cerflunydd Ann Catrin. Yn ail roedd Celt John o Ddolgellau ac yn drydydd roedd Heledd Wyn Newton o Gaerdydd.

# Gwobrwyo Prif Lenor Eisteddfod T!



Mared Fflur Jones o Ddolgellau yw enillydd Prif Lenor Eisteddfod T, gyda darn o waith "llawn cariad a gwewyr" yn ôl y beirniad, Manon Steffan Ros. Yn ferch fferm Fronalchen ar gyrion Dolgellau mynychodd Ysgol Ieuan Gwynedd, Rhydymain ac Ysgol y Gader, Dolgellau cyn symud ymlaen i'r chweched dosbarth yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth. Mae Mared ar fin cwblhau ei hail flwyddyn yn astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Mae'n hen law ar ennill eisteddfodol – wedi ennill cadair Eisteddfod Ysgol y Gader ac wedi dod yn ail a thrydydd am gadair Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Mae'n chwarae rygbi, yn canu a pherfformio ac yn treulio'r cyfnod hwn yn helpu ar y fferm, yn darllen ac ymgymryd ag ambell brosiect 'DIY'.

Datgelwyd mai Mared oedd yr enillydd mewn seremoni arbennig a ddarlledwyd yn fyw ar S4C a BBC Radio Cymru, gyda'r beirniad, Manon Steffan Ros, a'r tri chystadleuydd terfynol yn ymuno ar sgriniau o'u cartrefi. Yn ail oedd Osian Wynn Davies o Gaerdydd ac yn drydydd Osian Wyn Owen o Felinheli. Wrth gyhoeddi mai Mared oedd Prif Lenor Eisteddfod T, ac yn derbyn tlws wedi ei greu yn arbennig gan y cerflunydd Ann Catrin, roedd Manon Steffan Ros yn uchel ei chanmoliaeth:

"Mae'r awdur yn gyffrous ac yn grefftus, gan ddefnyddio arddull lafar, naturiol a chynildeb clyfar i ddal sylw'r darllenydd. Mae'n plethu stori syml ond dirdynnol, ac yn creu darlun yn y meddwl sy'n gwbl real, yn gwbl glir, yn gwbl deimladwy ac yn llawn cariad a gwewyr."

Mae'r Eisteddfod T arloesol, lle mai ar-lein mae'r holl gystadlu, ar y pedwerydd diwrnod o ddarlledu llwyddiannus. Bu'r ymateb gan y cyhoedd yn wych, gyda llawer yn datgan eu gwerthfawrogiad o fenter yr Urdd ar y cyfryngau cymdeithasol.

# Gwobrwyo Prifardd Eisteddfod T!




Heddiw (Dydd Gwener, Mai 29) ar ddiwrnod olaf yr Eisteddfod T gyntaf erioed, datgelwyd mai'r Prifardd eisteddfodol yw Osian Wyn Owen o'r Felinheli.
Mae'n wyneb cyfarwydd i'r Urdd gan mae fo oedd enillydd Cadair Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Brycheiniog a Maesyfed yn 2018. Mae gan Osian achos i ddathlu yr wythnos hon gan iddo hefyd ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth y Prif Lenor ddoe. Mae hefyd yn un o'r ychydig rai i gyflawni'r 'dwbl' yn Eisteddfod Ryng-golegol Llanbedr Pont Steffan yn 2018 sef ennill y gadair a'r goron.
Yn wreiddiol o'r Felinheli, mae Osian bellach yn byw yn Nghaernarfon gyda'i ffrind a chyd-fardd Caryl Bryn a'r gath Grês Elin. Dylai fod yn graddio gyda gradd MA o Brifysgol Bangor fis Mehefin ond oherwydd yr amgylchiadau, gohiriwyd hyn. Ysgrifennu a gwleidyddiaeth yw ei brif ddiddordebau, ac mae wedi mwynhau amser rhydd yn ystod y cyfnod diweddar i wylio hen ddarllediadau o etholiadau a refferenda gwleidyddol, ac yn ei eiriau ei hun "yn teimlo fel rêl *nerd*"! Yn ogystal â hynny, mae wedi bod yn mwynhau ymarferion rhithiol wythnosol Côr Dre!
Ar hyn o bryd mae'n taflu ei hun i'w swydd newydd fel swyddog y wasg, ac yn mwynhau dysgu cynganeddu i ddosbarth rhithiol brwd iawn, a hynny wedi iddo yntau ddysgu'r grefft gan Gruffudd Antur a Rhys Iorwerth.
Yn ei feirniadaeth, meddai Aneirin Karadog: "Safai cerdd 'Clustog' am 'Y Beic' mas o'r darlleniad cyntaf, nid yn unig am ei fod yn destun gwahanol i weddill y cerddi ond hefyd am fod yma lais aeddfed a chrefftus oedd yn canu o'r galon ac yn llwyddo i gyffwrdd a'm calon i.
"Mewn cystadleuaeth uchel ei niferoedd a'i safon, mae 'Clustog' yn haeddu pob clod a ddaw gyda'r wobr."
Yn ail roedd Cristyn Rhydderch Davies o Gaerdydd ac yn drydydd roedd Lois Campbell o Gelli Aur, Caerfyrddin.
Mae Eisteddfod T wedi profi'n llwyddiant ysgubol gyda chynulleidfaoedd radio, teledu ac ar-lein yr wythnos hon. Ar ei diwrnod olaf o ddarlledu byw, bu llawer yn datgan eu gwerthfawrogiad o fenter yr Urdd ar y cyfryngau cymdeithasol.

## "Gallwn ni oll fod yn gyfryngau i gariad Duw"

Roedd y grŵp Cristnogol lleol CODA NI i fod i ddathlu dengmlwyddiant yn yr Hen Gapel dros y Pasg eleni. Wnaeth e ddim digwydd oherwydd argyfwng feirws Corona, ac yn hytrach cyhoeddywd ffilm i ddathlu 10 mlynedd o genhadaeth y gellwch ei gweld ar ein tudalen Facebook.

Os bu'r cyfnod hwn yn anodd i ni, meddyliwch am yr effaith ar dlodion y byd - yn Affrica lle mae cadw pellter cymdeithasol yn amhosib, mewn llochess lle bydd merched yn ceisio osgoi trais yn y cartre neu i blant ag anghenion dysgu neu iechyd arbennig ond sy'n gorfod aros adre. Cenhadaeth Coda Ni yw ceisio dangos cariad Duw ar waith i'w holl blant, a thrwy ein cymorth a'n gweithredoedd godi tlodion a rhai sy'n anobeithio i weld fod Duw yn eu caru a bod eu bywydau o bwys mawr. Yn sicr, er gwaetha'n hanawsterau ein hunain, nid dyma'r amser i droi cefn ar bobl mewn angen mawr.

Mae ein gwaith yn darparu bwyd a lloches ac hyfforddiant i rai mewn angen a chyfle i ddod i adnabod y Duw byw. Gall pawb fod yn rhan o'r genhadaeth trwy roi yr hyn y gellwch ei wneud. Croesawn o hyd sachau o ddillad cyfan a glân, a bydd ein haelodau hyd yn oed yn y cyfnod hwn yn treulio oriau bob wythnos yn eu didoli, yn codi arian trwy werthu rhai ar ebay, yn neilltuo eraill ar gyfer Sêl pan ddaw'n bosib ac fe werthir y gweddill fesul pwys. Efallai i chi gael mwy o amser yn ddiweddar i fynd trwy'ch wardrôb, a bod gyda chi ddillad sbâr heb eich bod yn gallu mynd at siop elusen fel arfer. Cysylltwch â ni a gallwn ni drefnu casglu'n ddiogel o du fas i'ch drysau. Cysylltwch â Fioled Jones yn Abergwen - 01559-384617/ 07791146562. Diolchwn am eich caredigrwydd ar ran y rhai sy'n derbyn.

**Ffred Ffransis**

# Datganiad i'r wasg gan yr Eisteddfod Genedlaethol
## Cyhoeddi rhaglen nesaf AmGen

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi cyhoeddi rhaglen prosiect AmGen ar gyfer yr wythnos nesaf. Lansiwyd y cynllun ddechrau'r wythnos, a'r bwriad yw rhoi blas o'r Brifwyl i bawb dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Bydd y prosiect yn parhau i gynnal o leiaf un gweithgaredd y dydd ar draws nifer o blatfformau, ac yn parhau i weithio'n agos gyda rhaglenni fel Heno a Prynhawn Da, ynghŷd â phapurau newydd fel Yr Herald Cymraeg a'r papurau bro, er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl.

Meddai Prif Weithredwr yr Eisteddfod, Betsan Moses, "Ry'n ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi bod yn rhan o AmGen yr wythnos hon. Ry'n ni wedi cael wythnos arbennig iawn, ac mae'r sesiynau wedi bod yn amrywiol ac yn hynod ddiddorol.

"Ry'n ni wedi cael cymysgedd hyfryd o weithgareddau – o gerddi newydd sbon gan Guto Dafydd a Myrddin ap Dafydd yn ein rhaglen Cerddi AmGen ein Prifeirdd, i ddarlith ardderchog gan Dylan Foster Evans ar hanes eisteddfodau Caerdydd, ac o arbrawf gwyddonol yng ngardd yr Athro Andrew Evans i sesiwn ar sut i sychu gwallt gyda'r steilydd, Denise Allen. Ry'n ni wedi cael modd i fyw, ac ry'n ni'n gobeithio bod pawb arall wedi mwynhau.

"Bwriad AmGen yw ceisio llenwi'r bwlch a adawyd pan fu'n rhaid i ni ohirio'r Eisteddfod Genedlaethol eleni, oherwydd pandemig COVID-19. Mae hi'n flwyddyn wahanol iawn, ac amgylchiadau pawb wedi newid, ond roedden ni'n benderfynol ein bod ni'n parhau i greu cynnwys newydd ac i roi cyfleoedd i bobl gyflwyno sesiynau ac i eraill eu mwynhau mewn ffordd cwbl amgen.

"Ac mae i weld yn gweithio hyd yn hyn. Ry'n ni'n falch iawn bod nifer o bobl wedi lawrlwytho rhaglen Zoom yn arbennig er mwyn gwylio sesiynau AmGen, ac ry'n ni wedi ychwanegu at ein dilynwyr ni ar Trydar a Facebook dros y dyddiau diwethaf wrth i bobl sylweddoli bod cynnwys ardderchog ar gael ar y gwahanol blatfformau. Heddiw am y tro cyntaf, bydd modd gwylio ar blatfform AM wrth iddyn nhw gyhoeddi sesiynau'r wythnos bob dydd Gwener, gan gychwyn heddiw.

"Mae nifer fawr hefyd wedi bod yn mynd ati i wylio'n ôl, gyda'r sesiynau i gyd ar gael ar ein gwefan mewn un lle hawdd, www.eisteddfod.cymru/amgen, ac yna, un clic i gyrraedd manylion y celfyddydau amrywiol. Ac wrth gwrs, nid pawb sy'n gwirioni ar gyfrifiaduron, ac ry'n ni'n falch iawn o'r berthynas sydd gennym gyda'r wasg a'r cyfryngau mwy traddodiadol, sy'n cyrraedd cartrefi pobl Cymru heb iddyn nhw orfod mynd ar-lein.

"Wrth gwrs, mae wythnos nesaf yn wythnos Eisteddfod-T ac wrth ddymuno pob llwyddiant i'r Urdd gyda'r prosiect hynod hwn, ry'n ni wedi camu'n ôl rhywfaint, gan ein bod yn gwybod y bydd nifer fawr o'n cefnogwyr ni yn awyddus i wylio Eisteddfod-T yr wythnos nesaf. Ac er mwyn dathlu'r wythnos, ry'n ni wedi gofyn i ddau o brif enillwyr yr Urdd, Anni Llŷn ac Iestyn Tyne i greu cerddi newydd ar gyfer dydd Llun a dydd Gwener.

"Ymysg y gweithgareddau eraill, cawn fwynhau Mererid Hopwood a Mari George yn trafod y gyfrol Yr Awen Drwy'r Storïau yn Sesiwn y Gweisg nos Lun, ac yna nos Fawrth, bydd Peredur Lynch yn ail-draddodi ei ddarlith eiconig, Awdlau'r Eisteddfod Genedlaethol – Y Gorau a'r Gwaethaf. Os fuoch chi'n rhan o'r cwrs Haf o Gerdd Dafod yr wythnos ddiwethaf, yna cofiwch am yr ail weithdy nos Fercher, a gallwch wylio'n ôl a lawr lwytho'r sleidiau o wefan yr Eisteddfod, www.eisteddfod.cymru. Ac mae llond lle o weithgareddau eraill o bob math, ac mae'r rhaglen ar gael rwan ar ein gwefan a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol.

"Gobeithio ein bod ni wedi llwyddo i gynnig rhywbeth i bawb. Ein gobaith yw bod y rhaglen wythnosol yn cynnwys yr un cymysgedd eclectig ag ymweliad â'r Maes. Fe fydd y rhaglen yn amrywio o wythnos i wythnos, ac fe fyddwn yn cyhoeddi rhaglen yr wythnos ganlynol bob dydd Gwener."

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.eisteddfod.cymru/amgen.

**CARTREF HENLLAN**
Aelwyd gartrefol Gymraeg
Bwyd maethlon a gofal arbennig
24 awr y dydd

Perchennog: Mr G T Williams
Metron: Jackie Cannell
Is Reolwraig: Camwy Griffiths
01559 3712 93

**GWESTY'R PORTH**
Llandysul
Cwrw da ~ Bwyty ~ Prydau Bar
Ystafelloedd Gwely En Suite
Ystafell fawr ar gyfer
Priodasau a Chiniawau

01559 362202

## LLWYDDIANT WRTH I EISTEDDFOD T BLESIO CYNULLEIDFA DDIGIDOL

Wrth i’r eisteddfod ddigidol gyntaf erioed ddod i ben heddiw (dydd Gwener Mai 29) yn dilyn wythnos gyffrous o gystadlu, mae’r cyfryngau cymdeithasol yn llawn negeseuon o gefnogaeth a diolch gan gystadleuwyr, hyfforddwyr, athrawon a chynulleidfaoedd fel ei gilydd.

Yn ystod yr hyn a fyddai wedi bod yn wythnos Eisteddfod yr Urdd yn Sir Ddinbych, a ohiriwyd oherwydd Covid19, mae cystadleuwyr a gwylwyr wedi bod yn mwynhau gŵyl ddigidol wahanol ar y radio, teledu ac ar-lein.

“Mae’r ymateb wedi bod yn anhygoel," meddai Sian Eirian, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd. “Mae safon y cystadlu yn syfrdanol, ac rydyn ni mor falch o’r ymateb cadarnhaol a’r holl ganmol sydd.

“Mae'r ochr dechnegol wedi bod yn dipyn o her - dibynnu'n llwyr ar westeion yn cael eu cyfweld o bell gan gyflwynwyr mewn stiwdio dros-dro yng Ngwersyll yr Urdd Caerdydd, gan gadw at reolau pellter cymdeithasol, y beirniaid yn datgelu'r canlyniadau ar deledu byw, o'u cartrefi, ynghŷd â'r holl gystadlu yn digwydd yn ddigidol. Mae wedi bod yn anodd, yn gymhleth, yn gofyn llawer o bawb ar a thu ôl y sgrîn ac yn ddrwg i’r nerfau!

“Ond mae wedi mynd yn rhyfeddol o dda ac rydyn ni wedi ac yn parhau i gael ymateb gwych gan y gynulleidfa. Mae gwerthfawrogiad gwirioneddol gan bobl o’r ymdrech a’r ymroddiad a aeth i lwyfannu’r Eisteddfod hon.”

Cynhaliwyd Eisteddfod T trwy gydol yr wythnos hon gan ddenu dros 6000 o gystadleuwyr mewn mwy nag 80 o gystadlaethau, gyda chystadlaethau ychwanegol trwy gydol yr wythnos. Ymunodd cynulleidfaoedd yn yr hwyl, ar deledu, radio ac ar-lein gyda mwy na 25 awr o ddarlledu byw ar S4C a 18 awr ar BBC Radio Cymru a gweithgaredd di-baid ar y cyfryngau cymdeithasol.

Roedd hyd yn oed ‘faes’ eisteddfod digidol ar Facebook, Maes T gyda ‘stondinau’ rhithwir – denodd Maes T fwy na 4,400 o ymweliadau ar ei ddiwrnod cyntaf ac fe'i cadwyd ar agor am ddiwrnod ychwanegol oherwydd y galw.

Dros yr wythnosau diwethaf, mae cystadleuwyr wedi bod yn anfon fideos o’u perfformiadau i gael eu beirniadu - cyfuniad o gystadlaethau traddodiadol a chystadlaethau anffurfiol, hwyliog i deuluoedd a ffrindiau o bob oed. Ymhlith y rhain, roedd dawnsio gwerin traddodiadol a chanu cerdd-dant ynghŷd ag elfennau mwy anghonfensiynol fel deuawd gydag enwogion Cymru, cystadleuaeth lip-sync, parodi o gân gyfarwydd a sgetsus i’r teulu cyfan.

Meddai Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys S4C: “Mae wedi bod yn wythnos a hanner, un na welwyd ei thebyg ac a fydd yn cael ei dathlu a’i chofio am flynyddoedd. Ry’n ni’n falch iawn o fod wedi gallu cydweithio gyda’r Urdd ar y fenter arloesol hon oedd yn cynnig cyfle i blant, pobl ifanc a’u teuluoedd i ddisgleirio. Mae Eisteddfod T wedi llwyddo i ddod a Chymru gyfan ynghyd drwy rym technoleg ac ry’n ni’n falch iawn o fod wedi gallu darlledu holl fwrlwm a hwyl y digwyddiad heriol a hwyliog hwn yn fyw ar S4C. Llongyfarchiadau mawr i bawb.”

Meddai Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru a BBC Cymru Fyw: “Drwy gydol yr wythnos mi fu BBC Radio Cymru yn dod â’r diweddaraf o hwyl a chystadlu’r digwyddiad cwbl unigryw yma a bydd cyfle i gael blas ar uchafbwyntiau’r wythnos wych gyda Hywel Gwynfryn a Rhiannon Lewis b’nawn Sadwrn am 2.00 y prynhawn.

“Ry’n ni’n hynod falch o fod yn rhan o ddigwyddiad arloesol a hanesyddol ac yn falch iawn o lwyddiant yr wythnos.”

Cyhoeddwyd testunau’r cystadlaethau ar ddechrau’r mis yn annog plant, pobl ifanc a’r genhedlaeth hŷn i wneud fideos a’u huwchlwytho i’r wefan - a throdd y cystadleuwyr allan yn eu miloedd, gyda llawer yn ffilmio gyda theulu a ffrindiau mewn gwahanol leoliadau yn defnyddio Facetime, Zoom, Teams a dulliau eraill sydd wedi dod yn gyfarwydd i lawer oherwydd y lockdown.

Bydd rhaglen uchafbwyntiau ar S4C, ddydd Sadwrn, Mai 30 am 8pm a BBC Radio Cymru ar yr un diwrnod am 2pm. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mari Williams, Rheolwr Cyfathrebu Urdd Gobaith Cymru mari@urdd.org 07976 330361.

# Tudalen i blant dan 8 oed

**Tynewydd, Gorrig, Llandysul, Ceredigion, SA44 4JP**
**bethan@cd1340.f9.co.uk**

Annwyl Blantos,


Wel, shwt ych chi gyd? Ie amser rhyfedd iawn, dim ysgol na dim byd ymlaen. Diolch byth am y tywydd braf. Rwyf wedi mwynhau cerdded yn yr haul tesog yn gweld byd natur ar ei orau. Dyna braf oedd gweld y blodau hyfryd yn llenwi`r cloddiau ac ar hyd y daith bob dydd rwyf yn sylwi ar yr holl flodau gwyllt gan ddysgu eu henwau. Dyna sialens fach i chi nawr i chwilio am flodau a`u henwi. Rhowch wybod i mi.

Ymysg y blodau hefyd mi welais nifer o ieir bach yr haf yn hedfan ymysg y blodau a dyna beth yr hoffwn i chi wneud y tro yma yw lliwio`r iar fach yr haf. Rwyf wrth fy modd yn eu gweld yn hedfan ac edrychaf ymlaen at weld y lluniau hyfryd yn dod drwy`r post neu ar e-bost. Cofiwch bod yna docyn llyfr gwerth £5 i`w ennill bob mis, felly ewch amdani.

Enillydd unwaith eto y tro yma yw **Eli-May Franklin, Penrhiw, Prengwyn**. Rwyt yn lliwio mor hyfryd a diolch i ti am dy waith arbennig bob tro.

Hwyl am y tro,

**Beth**



**Enw**______________

_________________

**Oed**______

**Cyfeiriad**_________

___________________

__________________

**Cyfle i chi ennill Tocyn Llyfr gwerth £5**

# CFFI CEREDIGION

Dyma ni yn byw yn y cyfnod mwyaf unigryw yn ein hanes! Y byd cyfan mewn "lockdown" ers dros deufis a ninnau Ffermwyr Ifanc Ceredigion yn gwneud ein rhan i gyfrannu at hwyluso bywyd pobol y Sir yn y cyfnod yma. Nifer o aelodau ar hyd a lled y Sir wrthi yn cynorthwyo'r bobl mwy bregus yn eu cymunedau a braf oedd clywed ein Aelod Seneddol, Ben Lake, yn rhoi cymeradwyaeth i waith yr aelodau yn y Senedd yn ddiweddar. Cofiwch, os oes unrhyw un angen cymorth mewn unrhyw ffordd, gellir cysylltu efo swyddfa'r CFfI ar 01570 471 444, neu drwy e-bost ar anne@yfc-ceredigion.org.uk.

Fel arfer, byddai Mis Mai yn fis prysur iawn i holl aelodau'r Mudiad. Byddai pawb wrthi yn paratoi ar gyfer Rali'r Sir. Un peth yn siwr, does dim angen crafu pen am syniadau ar gyfer yr arwyddion neu becso am gynllun y tablo a chwilio amser i ddysgu dawnsio neu fynd i ymarfer barnu stoc. Rhai o'r aelodau mwyaf prysur a fyddai wedi bod yn edrych ymlaen at y Rali, byddai'r swyddogion newydd, ac felly dyma gyfle i ni gael cwrdd â hwy a chael ychydig o'u hanes a sut mae hwythau ym ymdopi yn ystod "Lockdown".

**Darpar Frenhines y Sir yw Rhiannon Davies** sy'n gweithio i Menter a Busnes ar brosiect Cyswllt Ffermio fel Rheolwr Rhanbarthol y De Orllewin. Mae wedi ei magu ar Fferm Blaenglowon, Talgarreg ac yn aelod gweithgar o CFfI Caerwedros. Bu'n forwyn i Frenhines y Sir yn 2015 ac mae'n Gadeirydd ar Bwyllgor Rhyngwladol CFfI Cymru ar hyn o bryd. Mae wedi cael cyfle i deithio dramor dan faner y Mudiad ond wedi mwynhau'r nosweithiau o gymdeithasu yng nglwb Caerwedros gan ddweud mae rhai o'r nosweithiau gorau mae wedi cael o fewn y clwb yw nosweithiau coginio, "Ni wastad yn cal lot o sbort yn gwneud hynny!"

Wrth drafod effaith Covid-19 ar ei bywyd dywed fod "Cyflymder bywyd llawer mwy araf nawr. Er bod sawl cyfarfod, cwis a bingo dros Zoom yn digwydd gyda'r nos, rwy'n gwario llawer mwy o amser gatre! *Definite* yn cael gwerth am arian allan o'r *mortgage* nawr!!! Y car sydd wedi cael y sioc mwyaf wrth iddo fynd o wneud bron 200 milltir yr wythnos i ddim hyd yn oed 2 filltir yr wythnos nawr! Rwy'n gweld eisiau teulu a ffrindiau mwyaf, a methu cwrdd lan am goffi neu beint! Y peth cyntaf rwy am wneud unwaith fydd y cyfyngiadau'n dod i ben fydd mynd draw i weld mam a dad a chael cwpaned o de gyda nhw! Rydym fel Clwb wedi bod yn rhedeg "Penbleth y Dydd" ar Facebook, y clwb lle rydym ni'n shario lluniau ayyb i bobl ddyfalu pwy sydd ynddynt."

Stori fach ddoniol oedd ganddi a fydd yn gwneud i ni gyd i chwerthin yng nghanol yr argyfwng yma yw ei hanes yng Ngala Nofio'r Mudiad. "Stori mwya' *embarrassing* fi o fod yn aelod yn y CFfI oedd yn gala nofio'r sir, roeddwn i ond tua 13 oed ar y pryd yn cystadlu yn y *front crawl* ac aeth y whistl ac fe es i mor gloi a on i'n gallu, clywed pobol ar yr ochr yn gweiddi "go go go" a chyrraedd y diwedd a sylweddoli mai "wow wow wow" oedden nhw'n gweiddi achos o'dd *false start* wedi bod a dim ond fi oedd yn nofio yn y pwll!! O'dd rhaid iddyn nhw aros am sbel nes i fi gael fy anadl nôl cyn gwneud y ras eto!!" Diolch i ti Rhiannon am rannu stori.

Un o'i dirprwyon yw **Heledd Besent**, aelod o Glwb Mydroilyn lle mae'n gadeirydd ar y Clwb eleni. Athrawes Gerdd yn Ysgol Bro Pedr yw Heledd. Mae wedi bod yn aelod o'r Mudiad ers yn 15 oed, yn gyn-aelod o Glwb Bro Ddyfi ond wedi ymuno â chlwb Mydroilyn pan symudodd i Geredigion. Dywed "Dwi wedi datblygu cymaint o sgiliau trwy'r Mudiad a dwi wedi magu lot o hyder wrth wneud. Ond yn fwy diweddar, mae'r Mudiad wedi helpu fi setlo yng Ngheredigion a dwi wedi dod i nabod gymaint o bobl yn yr ardal o'i herwydd. I mi, fy hoff weithgaredd ydy'r gystadleuaeth adloniant, fel yr hanner awr o adloniant. Mae'n rhoi cyfle grêt i ddod i nabod aelodau'n well a chael bach o sbort wrth wneud. Hefyd, mae gwylio perfformiadau pawb ar y diwedd wastad yn grêt gan bod perfformiad pob clwb yn hollol wahanol. Mae bywyd wedi newid cryn dipyn ers y "lockdown". Methais i fynd adre at fy nheulu cyn i bopeth gau lawr felly dim ond fi sydd yn y tŷ. Dwi'n cadw mewn cyswllt â ffrindiau a theulu drwy'r ffôn a laptop. Fel arall, dwi dal i ddysgu a gosod gwaith i ddisgyblion dros y wê. Gan bod llawer mwy o amser rhydd gennyf fi, dwi'n wedi bod yn gwneud tipyn o waith *DIY* o gwmpas y tŷ, felly dwi'n cadw'n brysur. Y peth mwyaf positif i mi weld ydy cymunedau yn dod at ei gilydd i helpu ei gilydd, boed hynny'n siopa, nôl pethau neu hyd yn oed checio ar rywun a chael bach o chat o bell. Dwi'n edrych mlaen cwrdd fyny gyda fy nheulu a ffrindiau ac i gael eistedd rownd bwrdd yn llawn o bobl gyda phryd o fwyd a diod a chael chat go dda gyda phawb."

Dirprwy arall yw **Bleddyn Davies** o glwb Caerwedros sydd hefyd yn Is-Gadeirydd presennol y Mudiad o fewn y Sir ac yn digwydd bod yn frawd i Rhiannon, ein darpar Frenhines. Graddiodd o Brifysgol Aberystwyth ac erbyn hyn mae'n ffermio bîff a defaid ar fferm y teulu ym Mlaenglowon Fawr, Talgarreg. Dywed "Gan bod Covid wedi lando yng nghanol amser wyna dwi heb weld gormod o wahaniaeth eto – y broblem mwya yw trefnu prydiau'mlaen, yn lle ffansio rhywbeth munud ola a popo i'r siop/*takeaway* i'w hôl e!". Dwed mae'r peth mae'n gweld eisiau fwyaf yw'r elfen gymdeithasol o'r Mudiad, "roedd dydd Sul hwylus y Pasg yn hir, ac yn boenus! Diolch byth am *playlist* Tomos i gal fi trwy'r diwrnod! Y peth cyntaf dwi am wneud pan ddaw y cyfyngderau i ben yw cael *Fish* a *Chips* ar y wal yng Nghei Newydd ac yna peint neu ddau yn *beer garden* y Black Lion. Dydyn ni heb ga'l noswaith clwb yn y ddeufis dwethaf a od yw mis Mai heb hasti o un lle i'r llall ar gyfer ymarferion Rali!" Moment balch iawn iddo oedd cael ei ddewis yn aelod mwyaf gweithgar y mudiad yn 2019 ac mae'n hoff o gystadleaeth rygbi 7 bob ochr ac yn "croesi pob dim bydd cyfle i chwarae am y tro olaf flwyddyn nesaf."

Un arall o'r Dirpwyion yw, **Lowri Jones**, sy'n aelod gweithgar o glwb Lledrod ers 2008 ac yn gweithio fel ymgynghorydd amaethyddol gydag ADAS. Mae'n hoff o nosweithiau sosial sy'n gyfle i gael hwyl ac i gymdeithasu. Mae'r Mudiad wedi rhoi cyfle iddi dysgu amrywiaeth o sgiliau gwahanol a chreu cyfeillgarwch newydd. Mae ganddi brofiad yn Trwsio Ieir ac wedi cystadlu nifer o weithiau dan faner y Mudiad ac yn ddiweddar gwelwyd fideo ohoni yn torri ac yn paratoi cyw iâr fel rhan o her wythnosol CFfI Ceredigion ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn ystod y cyfnod yma dywed, "Fel y rhan fwyaf o bobl, dwi wedi treulio llawer mwy o amser adre. Mae wedi bod yn braf gallu manteisio ar yr amser i helpu mwy ar y fferm yn Abernac a chael cyfle i goginio mwy (mae'r deiet yn dechrau 'fory). Fel cymaint o aelodau eraill drwy'r Mudiad, dw i'n falch fy mod wedi gallu bod o gymorth i bobl bregus yr ardal drwy siopa bwyd a chasglu negesuon iddynt. Mae'n hyfryd gweld bod gwaith da y Mudiad wedi parhau o fewn ein cymunedau drwy gydol y cyfnod ansicr yma. Da iawn C.Ff.I.! Rwy'n edrych ymlaen i gael cwrdd a theulu â ffrindiau a chael mynd allan ar nos Sadwrn unwaith eto."

Y dirprwy arall yw **Eiry Williams** sy'n ferch i fferm Tynewydd ac yn aelod o glwb Llangwyryfon ers yn 12 mlwydd oed, a sy'n gweithio ar brosiect ymchwil i IBERS yn edrych ar llyngyr yn defaid.
Wrth ofyn iddi am ei hoff weithgaredd dywed, "Fy hoff beth i am y mudiad yw cael mynd i'r clwb yn wythnosol a chael cymdeithasu gyda ffrindiau a gwneud amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Oherwydd Covid-19 rwyf bellach yn gweithio o adre ac yn methu defnyddio'r labordy yn anffodus. Er hyn, mae digon o waith gyda fi i'w wneud ac rwy'n gallu gwneud hyn o fy nghyfrifiadur adre. Mae Covid-19 wedi effeithio mwy ar fy mywyd personol nag ar fy mywyd gwaith. Does dim byd diddorol yn digwydd i fi y dyddie 'ma, sori i'weud. Dwi'n meddwl bod y Mudiad i'w ganmol am estyn llaw i helpu'r gymuned yn ystod y cyfnod yma. Mae Clwb Llangwyryfon wedi bod yn siopa dros bobl sy'n methu mynd allan o'u cartrefi, a chasglu presgriptiwn. Rydyn ni hefyd wedi cynnal un noson Clwb yn ystod y lockdown, sef noson cwis. Fi ac Esyllt oedd yn holi ac roedd hi'n braf cael siarad â phawb. Y peth rwy'n edrych mla'n at fwya' ar ôl *lockdown* yw medru mynd mas i'r dre!!"

**Darpar Ffarmwr Ifanc y Flwyddyn yw Cennydd Jones** o Glwb Pontsian. Ymchwilydd doethur gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn IBERS, Aberystwyth yw Cennydd. Mae'n dwlu bod ar y fferm deuluol hefyd, ac yn ei amser rhydd yn mwynhau yng nghwmni'r gwartheg godro a'r moch. Cafwyd cyfweliad diddordol ganddo yn ddiweddar a dechreuais wrth ofyn beth yw'r foment mwyaf balch ti wedi gael yn y Mudiad? "Yn bersonol, roedd ennill y teitl Aelod Hŷn dros GFfI Cymru yn rhywbeth bydd yn aros yn fy nghof am byth, ac wedyn cael cynrychioli Cymru yn y CCB yn Blackpool. Ces flwyddyn arbennig fel swyddog'da Cheredigion a Chymru, trwy gael cyfleoedd i deithio i wahanol ffederasiynau, ac ymweld â CCB CFfI Ulster yn Derry. Ond, mae fy mhrif uchafbwyntiau i gyd yn rhai sydd yn cynnwys mynd i rywle fel clwb neu Sir. Roedd ennill y cystadlaethau pantomeim a'r ddrama ar lefel Cymru gyda Phontsian yn rhywbeth byddai wastad yn cofio gyda gwên. Roedd y ddrama yn enwedig yn sbeshal, gan i lond bws o gefnogwyr wneud y daith i'r Galeri yng Nghaernarfon i wylio Oli. Clywsom feirniadaeth hael dros ben wrth Ffion Dafis, cyn dathlu ar ddiwedd y canlyniadau a chael noson wych yn dre'."

Cawsom glywed ei farn bositif am y cyfnod cythryblus yma. "Byddai bywyd yng nghanol Covid-19 tipyn gwaeth pe bai wedi digwydd 10-20 mlynedd yn ôl o safbwynt cymdeithasol. Rydym yn ffodus bod canran helaeth o'r boblogaeth gyda mynediad at declyn clyfar, we a chriw o ffrindiau a theulu sydd digon

awyddus am gwis neu sgwrs wythnosol. Gobeithio gall cymdeithas barhau gyda'i harferion da dros y cyfnod yma - o gynnig help llaw i aelodau bregus ein hardaloedd, i roi galwad ffôn am sgwrs gyda'm ffrindiau ac i ffeindio amser i'n hunan i ddarllen, gwneud ymarfer corff neu ddysgu crochet (dw i heb ddysgu crochet yn yr wythnosau diwethaf yn anffodus)." Dywedodd ei fod yn gweld eisiau'r "rhyddid roeddem mor gyfarwydd ohono. Y gallu o benderfynu ar nos Wener ein bod am fynd i gael swper mas yn Aberaeron, neu fynd am beint gyda ffrindiau yn Aberystwyth ar ôl gwaith. Un peth dydw i ddim yn gweld eisiau yw'r bil petrol o deithio i Aberystwyth yn ystod yr wythnos."

Ac efallai'n rhannu gormod gyda ni... "Fi wedi bod yn cael breuddwydion od yn ystod yr wythnosau diwethaf - lot o rhai wedi ticlo fi. Ges i un breuddwyd bod Llŷr Gruffydd (Aelod Senedd Cymru) yn trial gwerthu car i fi, a doedd e ddim yn cymryd "na" fel ateb. A ges i freuddwyd arall taw fi oedd "brand ambassador" Um bongo (dw i byth wedi yfed y stwff) a oedd yn fy ngalluogi i gael mynd i bob math o ddigwyddiadau. Credu bo'r cyfnod yma yn fy hala i'n wallgo'n araf bach..."

Mae'r Sir yn cynnal 'Her yr Wythnos' ar y gwefannau cymdeithasol, felly tarwch draw a rhowch gynnig arnynt. Daliwch ati i gadw mewn cysylltiad drwy gyfrwng y we' a'r cyfryngau cymdeithasol ac edrychwn ymlaen i gael cyd-gymdeithasu eto cyn hir.

Tan y tro nesaf, cadwch yn ddiogel,
Elliw ac Elin

## Chymdeithas Edward Llwyd
## Pawb yn Elwa
## gan Rob Evans

Wel dyn ni wedi bod dan glo rŵan am faint? Wyth wythnos? Dw i'n meddwl mod i wedi addasu â'r sefyllfa yn dda iawn. I ddweud y gwir, dim ond un peth sydd yn fy mhoeni i, efallai dim ond un peth ond mae'r poen yn cynyddu pob diwrnod - fy ngwallt! Fel rheol dw i'n teimlo'n ffodus mod gen i lond pen da o wallt ac os mae o'n cael ei dorri yn gyson dydw i ddim yn sylweddoli ei fod yn tyfu mor gyflym. Erbyn hyn efo pob siop trin gwallt ar gau dw i'n gwybod yn iawn pa mor gyflym, ac mae fy ngwallt allan o reolaeth yn llwyr. Yn yr ystafell ymolchi'r bore 'ma ces i sioc, roedd rhyw ddyn gwyllt yn syllu arnaf trwy'r drych, roedd ei ben wedi ei orchuddio gan gorongylch o wlân cotwm. Mae'n dechrau teimlo'n anghyfforddus, mae'n fy nghosi o gwmpas fy ngwar a dydy fy het ddim yn ffitio bellach.

Maen nhw'n dweud y siopau tri'n gwallt fydd yr olaf i ail agor a chlywais rywun yn sôn am rywbryd ym mis Gorffennaf. Mi fydda i allan o'n nghof ymhell cyn hynny!

Y bore 'ma roeddwn i'n eistedd allan yn yr ardd tua hanner awr wedi pump, yr haul heb ddechrau cynhesu'r diwrnod ond yn taflu golau hardd. Roedd yr adar yn brysur ganu a finnau wedi lapio'n gynnes. Mwynhau'r achlysur. Dw i'n eistedd tu allan peth cyntaf yn y bore yn aml iawn a'r adar yn gyfarwydd iawn â fi erbyn hyn. Y bore 'ma roedd dau aderyn, yn amlwg yn ddwfn mewn cariad ond yn ddigartref. Roedden nhw'n syllu ar fy mhen ac yn dangos tipyn o ddiddordeb. "Sbïa ar y pen yna," dywedodd yr un "bydden ni ddim llawer o amser yn adeiladu nyth yn fanna!" "Ti'n iawn," meddai'r llall, "mae digon o ddefnydd yna i greu nyth yn ddigon mawr i chwech o blant!"

Aethon nhw ymlaen i gynllunio eu dyfodol a finnau yn trio fy ngorau i ddangos dim diddordeb o gwbl ond roeddwn i'n cydymdeimlo efo'u sefyllfa nhw. Na fyddaf yn hapus iddyn nhw nythu ar fy mhen ond mi oedd un ffordd byddaf yn gallu helpu, a helpu fi ar yr un pryd.

Es i i'r ystafell ymolchi, cydio yn y siswrn a thorri'r cwbl lot i ffwrdd, rhoi'r holl wallt mewn hen focs 'sgidiau a'i thycio fo yng nghanol un o'r coed afalau. Ymhen awr roedden nhw wedi symud i mewn ac yn cael parti.

A finnau? Wel dw i'n teimlo'n llawer mwy cyfforddus, bydd rhaid gwisgo het wrth gwrs ond erbyn mis Gorffennaf mi fyddaf yn barod i gael toriad go iawn.

Peidiwch ag edrych ar y dyddiad, nid Ebrill y cyntaf yw hi - mae'n stori wir ac os nad ydych yn fy nghredu fi edrychwch ar Twitter achos ar ôl y parti mawr roedd y ddau aderyn lwcus a'r ffrindiau i gyd yn brysur ar Twitter ac yn twîtio'r stori i'r holl fyd.

Cadwch yn saff!

# MARW HEB EWYLLYS

Heb Ewyllys gall y broses o weinyddu eich ystad fod yn hir ac yn ddrud. Yn bwysicach fyth heb Ewyllys y gyfraith sydd yn datganu sut y bydd eich ystad yn cael ei throsglwyddo a gall hyn fod yn groes i'ch dymuniadau. Mae'r Rheolau Marwolaeth Heb Ewyllys yn rhestri mewn trefn penodedig y perthnasau gwaed hynny a fydd yn etifeddu. Mae'r rhestr hyn o berthnasau gwaed yn gymharol gyfyng ac os nad oes unrhyw un o'r perthnasau a benodir yn y rhestr wedi eich goroesi yna eiff eich holl eiddo i'r Goron a Thrysorlys ei Mawrhydi fydd yn gyfrifol am weinyddu'ch ystad.

Heb Ewyllys os ydych yn briod gyda phlant a mae gwerth eich ystad yn fwy na £270,000 ni fydd eich gŵr neu wraig yn etifeddu popeth ohonoch. Byddant yn etifeddu £270,000 a rhennir y gweddill yn gyfartal rhyngddyn nhw a'ch plant. Gall hyn achosi trafferthion mawr, yn enwedig os yw gwerth eich cartref yn fwy na £270,000.

Os oes gennych blant ifanc neu ddibynyddion na allant ofalu amdanyn nhw eu hunain mae Ewyllys yn rhoi'r cyfle i chi benodi gwarchodwyr. Heb benodiad fel hyn gallai fod anghydweld mawr ynglŷn â phwy bydd yn gofalu am eich plant neu ddibenyddion ar eich marwolaeth.

Hefyd mae'n bwysig iawn gwneud Ewyllys os nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil gofrestredig gyda'ch partner neu os oes gennych lys blant nad ydych wedi eu mabwysiadu trwy'r broses gyfreithiol - ni fydd y bobl hyn yn etifeddu ohonoch oni bai bod gennych Ewyllys.

Ruth Ceri Jones LL.B. Cyfreithwraig

Os hoffech drafod llunio Ewyllys yn y Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

**Ruth Ceri Jones LL.B.** Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau.

**ARWYN VOBE ACCOUNTANCY LTD.** ACCA

CYFRIFYDD SIARTREDIG

Maesowen, Rhydowen, Llandysul, Ceredigion, SA44 4PY

- **Cyfrifon Blynyddol ac Interim**
- **Ffurflenni Treth Personol ac i Gwmnïau**
- **Cadw Llyfrau gan gynnwys Ffurflenni TAW**
- **Cyflogau, Pensiwn a CIS**
- **Cyngor Cyffredinol i Fusnesau ac Unigolion**

Gwasanaeth effeithlon prydlon gyda gwên gyfeillgar!

Ffoniwch ni ar 01545 590307 neu
ebost arwyn@avaccountancy.cymru

**ffab** Llandysul

*Anrhegion unigryw*

*Siop Gomerian*
*Stryd y Gwynt · Llandysul*
*Ceredigion SA44 4BD*

01559 362060

**Dilynwch ni ar 'Facebook'**

**Cered / Fforwm Cymuned Penparcau**
**Dishgled am 10**
**Pob Dydd Llun am 10am gan ddechrau ar 1 Mehefin**
**Cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg sgwrsio ar Zoom**
**Croeso i bob un o Geredigion ymuno!!!!**
**Manylion ar Zoom:**
**ID Cyfarfod - 2111051598**
**Cyfrinair - 6PuyuV**

***MANSEL GRIFFITHS A'I FAB***

Garej Annwylfan,
Llanfihangel ar arth, Pencader


**Ffôn: 01559 384537**

**Partner ~ Jonsered ~ Husqvarna ~ Efco**

**Gorsaf Prawf MOT**

GWASG PRIFYSGOL CYMRU
UNIVERSITY OF WALES PRESS

# Creu Dinasyddiaeth i Gymru




## Mewnfudo Rhyngwladol a'r Gymraeg

## Gwennan Higham

Dyma gyfrol sydd yn ymdrin â mewnfudo rhyngwladol, cymunedau Cymru a'r Gymraeg o safbwynt ieithyddol a chymdeithasol. Tynnir ar waith empeiraidd a wnaed gyda mewnfudwyr, tiwtoriaid iaith a swyddogion llywodraethol Cymru, a dadleuir bod angen diffinio dinasyddiaeth Gymreig sydd yn amlethnig ac amlieithog ei natur. Mae'n herio rhagdybiaethau'r gymuned groeso am berthynas mewnfudwyr â'r Gymraeg a'r gallu i ddysgu'r iaith. Yng ngoleuni'r newidiadau gwleidyddol a chymdeithasol cyfredol, mae neges y gwaith hwn yn addas i bawb sydd â diddordeb yn nyfodol Cymru fel cenedl allblyg ac amlethnig. Neges arall y llyfr yw bod cyfraniad unigolion yn hollbwysig i ffurfio ac ymarfer cysyniad lleol o ddinasyddiaeth Gymreig. Bydd y llyfr felly yn cyfrannu at drafodaethau ar lefel polisi ond hefyd ar lefel leol dinasyddion Cymru, ac yn apelio at academyddion, myfyrwyr Prifysgol ac oedolion sydd â diddordeb yn y maes.

Mae Gwennan Higham yn Uwch-ddarlithydd yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe. Mae'n ymchwilydd ym maes mewnfudwyr rhyngwladol yn dysgu Cymraeg, ac mae ei gwaith yn rhoi ystyriaeth lawn i'r goblygiadau y gall hyn ei gael ar ddiffinio amlddiwylliannedd a dinasyddiaeth Gymreig.

**Os hoffech drefnu cyfweliad gyda Gwennan Higham, neu dderbyn copi adolygu, cysylltwch â**

**Bronwen Swain, Gwasg Prifysgol Cymru, Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd, Cymru, CF10 3NS**

**Ffôn: 029 2037 6990**

**ebost: Bronwen.Swain@press.wales.ac.uk**

*Creu Dinasyddiaeth i Gymru: Mewnfudo Rhyngwladol a'r Gymraeg – Gwennan Higham – PB – 9781786835369 – £16.99*

*Creu Dinasyddiaeth i Gymru: Mewnfudo Rhyngwladol a'r Gymraeg – Gwennan Higham – eFfomat Lyfr – 9781786835383 – £16.99*

'Mae'r gyfrol hon yn cyfuno dadansoddi polisi craff ag asesiadau realistig o'r heriau a wynebir gan fewnfudwyr a ffoaduriaid wrth geisio cael eu hintegreiddio i'r gymdeithas leol yng Nghymru. Y canlyniad yw triniaeth wreiddiol, heriol a gwerthfawr o ddehongliad newydd ar ddinasyddiaeth. Gan ddefnyddio profiad rhyngwladol, megis Québec a Gwlad y Basg, cyniga'r drafodaeth ystyriaethau newydd trawsnewidiol o fudd i asiantaethau a chymdeithas sifil wrth iddynt geisio gwella profiad beunyddiol trigolion newydd yn eu plith. Mae profiad personol ac argyhoeddiad yr awdur o werth, ac urddas pob unigolyn yn goleuo pob rhan o'r dadansoddiad rhagorol hwn.'

- Yr Athro Colin H. Williams

'Un o'r heriau o'n blaenau yw sicrhau bod yr ymadrodd "Cymraeg i Bawb" yn cael ei wireddu. Yn y gyfrol hon, mae'r awdur yn dangos tystiolaeth bod awydd i gofleidio'r Gymraeg ymhlith ein diwylliannau amrywiol yng Nghymru – mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn falch iawn o weld cyhoeddi'r gwaith pwysig hwn.' - Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

**CYNNWYS:**

Rhagair
1 'Bringing people together around British values and that kind of thing': Dadlau'r tu hwnt i amlddiwylliannedd yng Nghymru
2 'Dinasyddiaeth Brydeinig – mae e'n clymu ni mewn': Adeiladu seiliau dinasyddiaeth Gymreig
3 'Dinesydd fydda i – dw i eisiau dysgu Cymraeg': Llunio darpariaeth Gymreig i fewnfudwyr
Ôl-nodyn, Nodiadau, Llyfryddiaeth, Mynegai

# CYSTADLEUAETH SWDOCW - AGORED I BAWB

Y cyfan sydd rhaid ei wneud yw cwblhau'r Swdocw a'i anfon ar e-bost at ygarthen@yahoo.com neu drwy'r post at **Rowena Davies-Franklin, Penrhiw, Prengwyn, Llandysul, Ceredigion, SA44 4LL.**

Bydd yr enw cyntaf allan o'r het ar ddiwedd y flwyddyn yn derbyn **£20**. Pob lwc.

Yr enw cyntaf allan o'r het ym mis Mai oedd **Richard. E. Huws, Pantgwyn, Bont - goch, Ceredigion**

**SWDOCW Rhif 61 (Mai 2020)**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | 6 | 9 | 4 | 8 | 3 | 5 | 7 | 1 |
| 7 | 5 | 8 | 9 | 1 | 6 | 3 | 2 | 4 |
| 1 | 3 | 4 | 2 | 7 | 5 | 8 | 6 | 9 |
| 8 | 1 | 5 | 3 | 2 | 9 | 6 | 4 | 7 |
| 6 | 7 | 3 | 5 | 4 | 1 | 2 | 9 | 8 |
| 4 | 9 | 2 | 8 | 6 | 7 | 1 | 3 | 5 |
| 3 | 2 | 7 | 1 | 5 | 4 | 9 | 8 | 6 |
| 5 | 8 | 6 | 7 | 9 | 2 | 4 | 1 | 3 |
| 9 | 4 | 1 | 6 | 3 | 8 | 7 | 5 | 2 |

**SWDOCW Rhif 62 (Mehefin 2020)**

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | | | | 4 | | 1 | 3 | |
| | 6 | 3 | 5 | 7 | | 2 | | |
| | | 9 | | | | | | 5 |
| | 9 | 7 | | 1 | | | | |
| 3 | 4 | | | | | | 8 | 1 |
| | | | | 5 | | 3 | 7 | |
| 7 | | | | | | 8 | | |
| | | 8 | | 2 | 5 | 6 | | |
| | 2 | 1 | | 3 | | | | 7 |

## Bywyd o dan y cyfyngiadau: Amgueddfa Cymru yn lansio apêl gyhoeddus

Mae Amgueddfa Cymru wedi lansio apêl gyhoeddus a phroject arsylwi torfol digidol er mwyn casglu profiadau pobl sy'n byw yng Nghymru yn ystod cyfnod eithriadol Covid-19.

Gyda chymorth pobl Cymru, bydd yr Amgueddfa yn creu cofnod a chasgliad cenedlaethol o atgofion o'r pandemig yng Nghymru. Gofynnir i bobl fynd i wefan Amgueddfa Cymru www.amgueddfa.cymru/casglu/covid i rannu eu profiadau yn ystod y cyfnod hwn.

Mae gan Amgueddfa Cymru hanes o gofnodi atgofion cenedlaethol Cymru, gan gydnabod fod bywyd pawb yn bwysig. Yn rhan o'r fenter gasglu newydd hon, bydd Amgueddfa Cymru yn lansio holiadur digidol torfol gan wahodd unigolion, cymunedau a sefydliadau ar draws Cymru i gofnodi eu profiadau o fyw dan y cyfyngiadau cyfredol ar symud.

Gellid olrhain y dull ymchwil hwn yn ôl i 1937. Yn ystod y cyfnod hwnnw o newid cymdeithasol digynsail (Dirwasgiad y 1930au), lansiodd yr Amgueddfa apêl gyhoeddus ac anfon dros 500 o holiaduron i wirfoddolwyr, cymunedau, sefydliadau ac ysgolion ar draws Cymru. Y dasg oedd cofnodi eu bywydau bob dydd, gan ddefnyddio'u gwybodaeth leol i lywio gwaith casglu'r Amgueddfa yn y dyfodol.

Mae archif Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru yn cynnwys bron i 800 ymateb i'r holiadur hwn, o ddiwedd y 1930au hyd y 1980au, gyda llawer o'r gwirfoddolwyr gwreiddiol yn cadw cofnod o'u bywydau dros ddegawdau.

*Yn ei lyfr Amgueddfeydd Gwerin / Folk Museum*s, a gyhoeddwyd ym 1948, disgrifiodd Iorwerth Peate yr angen i amgueddfeydd gasglu diwylliant a hanes cyfoes."Roedd yn grediniol nad oedd hi'n ddigon i arddangos a chadw'r hyn a fu; roedd hi'n hanfodol eu bod yn olrhain a chofnodi'r hyn a oedd yn digwydd yn y presennol a'r dyfodol".

Yn rhan o'r fenter hon, bydd Amgueddfa Cymru yn adeiladu rhwydwaith o gasglwyr cymunedol; yn casglu hanes llafar; yn creu oriel ar-lein o ddelweddau mewn partneriaeth â Chasgliad y Werin Cymru ac ymatebion i'r holiaduron; ac yn casglu gwrthrychau sy'n berthnasol i'r pandemig yng Nghymru wedi i'r cyfyngiadau ar symud gael eu codi.

Bydd yr holiadur yn llywio datblygiad casgliad Covid-19 Cymru. Gofynnir i'r rheini sy'n cymryd rhan bennu gwrthrychau o'u cartrefi a'u cymunedau sy'n cynrychioli eu profiad nhw o fywyd o dan y cyfyngiadau ar symud. Wrth i'r cyfyngiadau godi, bydd yr Amgueddfa yn cysylltu â'r gwirfoddolwyr er mwyn casglu a dogfennu eu gwrthrychau.

Meddai David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol Amgueddfa Cymru:

"Ni yw Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac mae gennym gyfrifoldeb i greu cofnod a chasgliad cenedlaethol o atgofion o'r pandemig yng Nghymru – dyma stori ein bywydau ar yr eiliad hon, yn gofnod o brofiad byw pawb yng Nghymru. Mae'n gyfnod digynsail ac mae'n rhaid i ni ei chofnodi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

"Roedd Amgueddfa Cymru'n eiriolwr cynnar o'r dull hwn o gasglu – dull sy'n gosod gwybodaeth y gymuned wrth ei wraidd, ac sy'n parhau hyd heddiw." Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Lleucu Cooke, Rheolwr Cyfathrebu Amgueddfa Cymru, lleucu.cooke@amgueddfacymru.ac.uk.